TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Diploma Painting and Decorating Level 2

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu ystod o dechnegau peintio ac addurno ar lefel ganolradd.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisoes wedi cyflawni'r Diploma Lefel 1 mewn Peintio ac Addurno

... Hoffech ychwanegu at eich gwybodaeth a'ch sgiliau

... Ydych yn mwynhau astudio drwy ddysgu ymarferol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn datblygu'r arbenigedd i weithio yn annibynnol a sefydlu amgyffred cadarn o effeithiau addurniadol uwch. Mae'n cwmpasu'r sgiliau canlynol:

Gosod a datgymalu offer mynediad a llwyfannau gwaith

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Paratoi arwynebau ar gyfer addurno
Taenu systemau paent gyda brwsh a rholer
Taenu sylfaen a phapurau plaen
Cynhyrchu caboliadau addurniadol arbenigol
Taenu a chreu lliw

Addysgir y cwrs drwy sesiynau ymarferol a chyfleusterau gweithdy rhagorol a gwersi theori i ategu'r wybodaeth a ddysgwyd yn y sesiynau ymarferol.

Cewch eich asesu drwy brosiectau ymarferol, profion ysgrifenedig ac ar-lein a byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

Lefel 2 Diploma mewn Peintio ac Addurno

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn ymuno â'r cwrs, mae angen Diploma Lefel 1 mewn Peintio ac Addurno arnoch a naill ai TGAU Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf Gradd D neu uwch.

Mae'n rhaid i chi fod eisiau gweithio yn y diwydiant adeiladu. Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunangymhelliant. Cewch eich asesu yn barhaus a disgwylir i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Lefel 3 mewn Peintio ac Addurno, prentisiaeth neu gyflogaeth.